WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

**Dyddiad cyhoeddi:** 31 Awst 2017

# Llys-faen a Chronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio (RIFW)

Rwyf yn ysgrifennu mewn ymateb i'ch cais am wybodaeth dyddiedig 1 Awst 2017, lle gofynnwyd am wybodaeth ynghylch eiddo Llys-faen a RIFW.

Er rhwyddineb, rwyf wedi ailysgrifennu eich cwestiynau isod a nodi ein hymatebion cyfatebol.

**1. A yw Swyddfa Archwilio Cymru wedi cytuno ar brisiad ar gyfer eiddo Llys-faen a werthwyd gan RIFW i S. Wales Land Development.**
Nid oes gennym gofnodion penodol sy'n cyd-fynd â'r disgrifiad hwn. Cynhaliodd Archwilydd Cyffredinol Cymru astudiaeth gwerth am arian o Gronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio (RIFW) a chyhoeddi adroddiad yn 2015 sydd ar gael yn http://www.audit.wales/cy/cyhoeddi/cronfa-buddsoddi-cymru-mewn-adfywio. Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio cwmpas gwaith Archwilydd Cyffredinol Cymru ac yn cynnwys ei ganfyddiadau, ei gasgliadau a'i argymhellion.

**2. A allwch ddweud wrthym beth fu union brisiad eiddo Llys-faen?**
Rydym yn dal rhywfaint o wybodaeth yn gysylltiedig â phrisiadau ar eiddo Llys-faen. Mae'r wybodaeth honno ar gael yn adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar RIFW, y cyfeirir ato uchod, ac sydd ar gael yn gyhoeddus yn http://www.audit.wales/cy/cyhoeddi/cronfa-buddsoddi-cymru-mewn-adfywio. Yn unol â hynny, mae'r wybodaeth hon wedi'i heithrio o gael ei datgelu o dan adran 21 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, gan fod modd i chi gael gafael arni'n rhesymol rwydd drwy ddulliau eraill.

**3. A yw Swyddfa Archwilio Cymru yn ystyried bod hyn yn cynnig 'gwerth am arian'?**
Nid oes gennym gofnodion penodol sy'n cyd-fynd â'r disgrifiad hwn. Cynhaliodd Archwilydd Cyffredinol Cymru astudiaeth gwerth am arian o'r penderfyniad i greu Gronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio (RIFW), a gweithrediad y gronfa honno, a chyhoeddi adroddiad yn 2015 sydd ar gael yn http://www.audit.wales/cy/cyhoeddi/cronfa-buddsoddi-cymru-mewn-adfywio. Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio cwmpas gwaith yr Archwilydd Cyffredinol ac yn cynnwys ei ganfyddiadau, ei gasgliadau a'i argymhellion.

Os hoffech gwyno am y modd yr ymdriniwyd â'ch cais, ysgrifennwch at Martin Peters, Rheolwr y Gyfraith a Moeseg, drwy e-bost i martin.peters@archwilio.cymru neu drwy'r post i 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

Mae'n rhaid imi hefyd dynnu eich sylw at adran 50 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. O dan yr adran honno cewch wneud cais i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad ynghylch a ymdriniwyd â'ch cais yn unol â'r Ddeddf ai peidio. Dyma fanylion cyswllt y Comisiynydd Gwybodaeth:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire SK9 5AF
e-bost: casework@ico.gsi.gov.uk
Ffôn: 01625 545745
Ffacs: 01625 524510

Fodd bynnag, dylech nodi y byddai'r Comisiynydd Gwybodaeth fel arfer yn disgwyl i chi fod wedi cwblhau ein gweithdrefnau cwyno mewnol cyn ymdrin â chais o'r fath. Ceir hyd i ganllawiau pellach ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth: https://ico.org.uk/.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir,